

Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cyflwyniad

Sefydliad cenedlaethol yw'r Coleg Cymraeg sy'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion.

Mae gan y Coleg **ganhennau** ymhob un o brifysgolion Cymru lle cynigir darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, lleolir y gangen o dan adain **Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**, a Swyddog y Gangen yw Dr Tamsin Davies.

Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth yw Dr Anwen Jones o'r Adran Theatr, Ffilm a Theledu ac mae'n cynrychioli'r gangen ar **Fwrdd Academaidd** y Coleg.

Caiff myfyrwyr y Gangen eu cynrychioli ar y Bwrdd Academaidd hefyd, ac eleni, Adam Jones, sy'n astudio Cymraeg gydag Almaeneg, yw'r cynrychiolydd o blith myfyrwyr.

Enwebwyd Dr Eleri Pryse, Sefydliad Mathemateg a Ffiseg ac Elin Haf Gruffydd Jones, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu gan y Coleg yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd i gynrychioli eu meysydd pwnc.

Mae'r Athro Aled Jones yn un o Gyfarwyddwyr y Coleg. Mae **Bwrdd Cyfarwyddwyr** y Coleg yn cynnwys tri ar ddeg o aelodau ynghyd â'r Cadeirydd. Mae chwe chyfarwyddwr wedi eu henwebu



O'r chwith i'r dde:
Dr. Tamsin Davies,
Swyddog Cangen PA
o'r CCC; Dr Anwen
Jones, Cadeirydd
y Gangen, Adam
Jones, Cynrychiolydd
myfyrwyr.

gan sefydliadau addysg uwch Cymru fel grŵp, pedwar cyfarwyddwr annibynnol, un cyfarwyddwr sy'n cynrychioli staff addysgu cyfrwng Cymraeg ac un sy'n cynrychioli myfyrwyr. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi llofnodi memorandwm cymdeithasu'r Coleg ac felly yn aelod llawn ohono.

Ceir mwy o wybodaeth am waith y Coleg ar ei gwefan: www.colegcymraeg.ac.uk

Cynllun Staffio Academaidd

Mae'r Cynllun Staffio Academaidd yn gyfraniad newydd a phwysig i'r gwaith o ddatblygu a chynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch. Mae'n darparu arian sylweddol i'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i gyflogi staff academaidd ac i feithrin darlithwyr o'r radd flaenaf sy'n nodedig am flaengarwch a rhagoriaeth ym maes ymchwil ac addysgu.

Er mwyn gwireddu amcan y cynllun, bydd £1m ar gael yn flynyddol am gyfnod o bum mlynedd yn y lle cyntaf ar gyfer cefnogi swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir y bydd dros 100 o swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg yn cael eu creu drwy'r cynllun erbyn blwyddyn academaidd 2015-16. Roedd cyfle i bob sefydliad wneud cais am hyd at naw darlithyddiaeth ar gyfer 2012/13.

Caiff y swyddi eu lleoli yn y sefydliadau addysg uwch mewn ystod eang iawn o ddisgyblaethau academaidd ar draws y gwyddorau, dyniaethau a'r celfyddydau, a chyllidir pob dyfarniad am hyd at bum mlynedd. Bydd deiliad y swyddi hyn yn gyfrifol am addysgu a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu priod feysydd pwnc, yn ogystal â chyfrannu at fywyd deallusol prifysgolion Cymru drwy waith ymchwil, hwylyso cydweithio gydag adrannau a sefydliadau eraill, a hyrwyddo'r Gymraeg oddi fewn i'w pwnc a'u sefydliadau.

Disgwylir i gylchlythyr cynllun staffio 2013-14 gael ei ryddhau yn nhymor yr **Hydref 2012**.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth dyfarnwyd y swyddi canlynol yn 2011:



Hefin Williams,
Sefydliad y
Gwyddorau Biologol,
Amgylcheddol a
Gwledig



Dr Rhys Dafydd Jones, Sefydliad
Daearyddiaeth a
Gwyddorau Daear



Dr Huw Morgan,
Sefydliad
Mathemateg a
Ffiseg



Dr Huw Williams,
Gwleidyddiaeth
Ryngwladol



Sara Penrhyn Jones,
Astudiaethau Theatr,
Ffilm a Theledu



Rhun Emlyn, Hanes a
Hanes Cymru

Mae darlithyddiaethau yn y meysydd canlynol ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi'u hariannu ar gyfer 2012/13:

- Sefydliad y Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig
- Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
- Sefydliad Mathemateg a Ffiseg
- Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Astudiaethau cyfrwng Cymraeg rhan-amser

Cronfa Datblygiadau Strategol a Phrosiectau

Nod Cronfa Datblygiadau Strategol a Phrosiectau'r Coleg yw cefnogi a symblu datblygiadau strategol a fydd yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd o leiaf £100,000 y flwyddyn, ar gael am hyd at ddwy flynedd arall i gyllido darpariaeth newydd, ar ffurf cyrsiau gradd llawn, llwybrau astudio o fewn cynlluniau gradd, modiwlau unigol, neu elfennau o fodiwlau. Gall y cynlluniau yma fod yn rhai sefydliadol, aml-ddisgyblaethol neu ar y cyd gyda sefydliadau addysg uwch eraill.

Mae'r Gronfa wedi ei sefydlu er mwyn darparu cymorth ariannol i brifysgolion wireddu'r nodau a'r blaenoriaethau strategol sydd wedi eu hamlinellu yn y **Cynlluniau Datblygu** pynciol.

Mae sawl prosiect wedi'u hariannu o'r gronfa hon ym Mhrifysgol Aberystwyth, o'r Esboniadur Daearyddol i wefan ffilm 'Yn y Ffrâm', ac o weithdy cyfieithu damcaniaeth i brosiect ymryson y gyfraith.

Yn flynyddol, mae cyfran o'r gronfa yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau strategol cenedlaethol. Ar hyn o bryd, y prosiectau o fewn y categori hwn yw:



• Gwerddon

Yr unig e-gyfnodolyn amlddisgyblaethol Cymraeg. Lleolir swydd y Cynorthwydd Golygyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth. g.lansdowndavies@colegcymraeg.ac.uk
www.gwerddon.org



• Prosiect Edward Llwyd

Mae Prosiect Edward Llwyd yn cydweithio gyda phrifysgolion ledled Cymru er mwyn cynnal ac ehangu'r ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'r gwyddorau. Lleolir y Swyddog Prosiect ym Mhrifysgol Aberystwyth
edwardllwyd@colegcymraeg.ac.uk

• Prosiect Termau Addysg Uwch

Nod y Prosiect yw sicrhau bod yr holl waith sy'n ymwneud â datblygu terminoleg cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol.

Cyllidwyd nifer fawr o brosiectau mewn ystod eang o feysydd dros y blynyddoedd diwethaf a cheir mwy o wybodaeth am y rhain ar wefan y Coleg.

Disgwylir i Gylchlythyr nesaf y Gronfa gael ei ryddhau yn ystod **Gwanwyn 2012**.



Cynllun Grantiau Bach

Mae cyfran o'r Gronfa Datblygiadau Strategol wedi ei neilltuo ar gyfer grantiau bach, i gyllido neu gefnogi prosiectau bychain na fydd yn parhau am fwy na blwyddyn, ac na fydd angen cyfraniad o fwy na £2,500 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Amcan y Gronfa yw cefnogi mentrau arloesol, gan gynnwys prosiectau unigol, a fydd yn helaethu a/neu'n cyfoethogi'r ddarpariaeth Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg. Croesewir ceisiadau am brosiectau a fydd yn arwain at gynhyrchu adnoddau addysgol neu gyhoeddiadau. Gellir hefyd gyflwyno ceisiadau yn gofyn am gyllid i gefnogi gweithgaredd neu ddigwyddiad academaidd cysylltiedig. Bydd dyraniadau o'r gronfa yn cael eu penderfynu tair gwaith y flwyddyn. Ar gyfer dyraniadau olaf blwyddyn academaidd 2011/12, dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 30 Ebrill 2012 (penderfyniad ym mis Mehefin).

Ysgoloriaethau

• Israddedig

- Prif Ysgoloriaethau (£3000)

I fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio cyrsiau gradd lle mae o leiaf 80 credyd y flwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ysgoloriaethau Cymhelliant (£1500)

I fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio cyrsiau gradd lle mae o leiaf 40 credyd ymhob blwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir manylion llawn ar wefan Mantais
www.mantais.ac.uk

• Meistr

Ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio cyrsiau lefel M penodol, sy'n cynnwys o leiaf 60 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

• Ymchwil

Mae'r cynllun yn darparu nawdd ariannol sylweddol – sy'n gyfwerth ag ysgoloriaethau ôl-raddedig Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK)

– i ddarpar-academyddion sydd yn astudio ar gyfer doethuriaeth.

Bydd deiliaid yr Ysgoloriaethau Ymchwil yn derbyn nawdd am bedair neu bum mlynedd, gan ddbynnu ar p'un ai ydynt eisoes wedi cwblhau Gradd Meistr ai peidio cyn cychwyn ar eu doethuriaeth. Ymhob achos rhoddir tair blynedd o nawdd ar gyfer cwrs doethur, a blwyddyn ychwanegol o nawdd pan gaiff y deiliaid eu cyflogi fel aelodau o staff academaidd o fewn eu hadrannau ar ddiwedd eu doethuriaeth. Bydd dyletswyddau addysgu y deiliaid yn cynyddu yn ystod y flwyddyn ychwanegol honno, a bydd gofyn iddynt gynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r newydd fel rhan o hynny.

Yn achos pob dyfarniad, mae disgwyl i'r adran neu'r brifysgol ble mae'r deiliad yn astudio greu swydd ddarlithio newydd – y bydd modd i'r deiliad ymgeisio amdani – ar ddiwedd y cyfnod cyllido. Dr Hywel Griffiths o'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth oedd y deiliad cyntaf i gael ei benodi i swydd o'r fath, a hynny yn Hydref 2009.

Disgwylir i gylchlythyr yr Ysgoloriaethau Ymchwil 2013-14 gael ei ryddhau yn nhymer yr **Hydref 2012**.



Y Porth

Llwyfan e-ddysgu cydweithredol sy'n cynnwys ystorfa helaeth o ddeunyddiau electronig o'r safon uchaf (gan gynnwys termiadur a nifer o fodiwlau cyflawn) i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg.

Mae'r Porth yn galluogi sefydliadau addysg uwch i gydweithio a chyflwyno modiwlau cydweithredol mewn modd effeithiol.
www.porth.ac.uk